



County Hall
Cardiff
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2000

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2000

AGENDA

Pwyllgor PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

Dyddiad ac amser y cyfarfod DYDD MAWRTH, 6 HYDREF 2020, 4.30 PM

Lleoliad MS TEAMS

Aelodaeth Cynghorydd Patel (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Derbyshire, Owen Jones, Lancaster, Jackie Parry,
Parkhill, Owen, Sandrey a/ac Wong

Tua
Amser.

1 Ymddiheuriadau am Absenoldeb 4.30 pm

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

2 Datgan Buddiannau

I'w gwneud ar ddechrau'r eitem agenda dan sylw, yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

3 Cofnodion (*Tudalennau 5 - 8*)

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Medi 2020 fel gwir gofnod.

4 Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir - Diweddariad Covid 4.40 pm
(*Tudalennau 9 - 16*)

Rhoi cyfle i'r Pwyllgor ystyried sefyllfa bresennol y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, a'r effaith y mae argyfwng presennol Covid wedi'i chael ar ddarparu gwasanaethau.

5 Rheoli Gwastraff - Diweddariad Covid (*Tudalennau 17 - 20*) 5.15 pm

Rhoi cyfle i'r Pwyllgor ystyried sefyllfa bresennol y Gwasanaeth Rheoli Gwastraff, a'r effaith y mae argyfwng presennol Covid wedi'i chael ar ddarparu gwasanaethau a phrojectau cyfalaf.

- 6 Pwyllgor Craffu Amgylcheddol – Cynllunio Rhaglen Waith 2020/21** 5.50 pm
(*Tudalennau 21 - 32*)

Eitem i roi cyfle i'r Pwyllgor drafod a nodi eitemau ar gyfer Rhaglen Waith y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol 2020/21.

- 7 Caerdydd Un Blaned - Nodyn Briffio Aelodau** (*Tudalennau 33 - 44*) 6.30 pm

Eitem i'r Pwyllgor drafod cynnwys yr adroddiad sydd i'w gyflwyno i'r Cabinet o'r enw 'Caerdydd Un Blaned – Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd', ac i drafod trefniadau ar gyfer ymarfer craffu byr i fwydo i mewn i'r ymarfer ymgynghori ehangach ar gyfer strategaeth Caerdydd Un Blaned.

- 8 Ôl-osod Tai - Cymhwysedd Hyblyg yr Awdurdod Lleol ar gyfer Eco** (*Tudalennau 45 - 52*) 6.45 pm

Eitem i'r Pwyllgor drafod cynnwys yr adroddiad sydd i'w gyflwyno i'r Cabinet o'r enw 'Ôl-osod Tai – Cymhwysedd Hyblyg Awdurdod Lleol ar gyfer Eco'. Nod yr adroddiad hwn yw cymeradwyo a chyhoeddi "Datganiad o Fwriad" i'r Cyngor ddefnyddio "Cymhwysedd Hyblyg Awdurdod Lleol ar gyfer ECO" y Llywodraeth, fel y gall aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd o broject Cronfa Cartrefi Cynnes Rhentu Doeth Cymru, a phrojectau posibl yn y dyfodol o natur debyg, elwa o gyllid ychwanegol gan y sector preifat i wella eu cartrefi.

- 9 Pwyllgor Craffu Amgylcheddol – Adroddiad Blynyddol Drafft 2018/19** (*Tudalennau 53 - 100*) 6.55 pm

Bydd y Prif Swyddog Craffu yn siarad â'r Aelodau am gynnwys Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol. Gofynnir i'r aelodau ystyried yr adroddiad, penderfynu a oes angen unrhyw newidiadau a chytuno ar fformat terfynol i'w gyflwyno i'r Cyngor.

- 10 Eitemau Brys (os oes rhai)**

- 11 Y Ffordd Ymlaen**

Adolygu'r dystiolaeth a'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y broses o ystyried pob eitem agenda, cytuno ar sylwadau, arsylwadau a phryderon Aelodau i'w hanfon i'r Aelod Cabinet perthnasol gan y Cadeirydd, a nodi eitemau i'w cynnwys ym Mlaenraglen Waith y Pwyllgor.

- 12 Dyddiad y cyfarfod nesaf – 3 Tachwedd 2020 am 4.30pm**

Davina Fiore

Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol

Dyddiad: Dydd Mercher, 30 Medi 2020

Cyswllt: Graham Porter, 02920 873401, g.porter@caerdydd.gov.uk

GWE-DARLLEDU

Caiff y cyfarfod hwn ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw a/neu yn olynol trwy wefan y Cyngor. Caiff yr holl gyfarfod ei ffilmio, heblaw am eitemau eithriedig neu gyfrinachol, a bydd y ffilm ar gael ar y wefan am 12 mis. Cedwir copi o'r recordiad yn unol â pholisi cadw data'r Cyngor.

Gall aelodau'r cyhoedd hefyd ffilmio neu recordio'r cyfarfod hwn

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a gaiff y cyfarfod cyfan neu ran ohono ei ffilmio. Fel rheol, ni chaiff ardaloedd y cyhoedd eu ffilmio. Fodd bynnag, wrth fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r ardal gyhoeddus, mae aelodau'r cyhoedd yn cydsynio i gael eu ffilmio ac y defnyddir y lluniau a recordiadau sain hynny o bosibl at ddibenion gwe-ddarlledu a/neu hyfforddi.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch gwe-ddarlledu cyfarfodydd, cysylltwch â'r Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau ar 02920 872020 neu e-bost [Gwasanethau Democraidd](#)